menteriaith
SIR Y FFLINT

www.menteriaithsiryfflint.co.uk

Adroddiad Blynyddol

2008-2009



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Cynnwys Tudalen

Rhagair y Cadeirydd	3
Crynodeb Gweithredol	4
Cenhadaeth Menter Iaith Sir y Fflint	4
Pennod 1 – Mudiadau a Phartneriaethau	5
Pennod 2 – Rhieni Ifanc	6
Pennod 3 – Plant	7
Pennod 4 – Hyder Ieithyddol	8
Pennod 5 – Pobl Ifanc	8
Pennod 6 – Sector Breifat	9
Pennod 7 – Marchnata a Chyhoeddusrwydd	9
Pennod 8 – Staffio, Y Strwythur Rheoli ac Aelodaeth	10
Pennod 9 – Gweithredu, Monitro ac Adolygu	13
Pennod 10 – Crynodeb o'r Datganiad Ariannol	15

Rhagair y Cadeirydd

Wrth gyflwyno adroddiad blynyddol Menter Iaith Sir y Fflint cawn gyfle i roi cip yn ôl ar flwyddyn hynod brysur yn ein hanes a ddaeth a nifer o newidiadau yn ei sgil. Lleolwyd swyddfa'r Fenter ers iddi gael ei sefydlu yn ddi-rent o fewn adeilad Coleg Glannau Dyfrdwy yn yr Wyddgrug a gwerthfawrogwn eu cefnogaeth i'r Fenter dros y blynyddoedd. Ym Mis Medi 2008 symudodd y staff o'r swyddfa yn Nhŷ Terrig i'r swyddfa yn "Corlan", adeilad newydd Cyngor Gwirfoddol Sir y Fflint sydd yn cyfrannu tuag at ein rhent trwy ad-daliad. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredin Arbennig ym Mis Rhagfyr yng Nghorlan i fabwysiadu cyfansoddiad newydd.

Daeth cyfnod i ben ym Mis Mawrth 2009 gan nad yw'r Fenter bellach yn darparu gweithgareddau yn uniongyrchol a phenodol ar gyfer Dysgwyr nac yn cyflogi Swyddog Dysgwyr. Rydym yn cefnogi a hyrwyddo gweithgareddau darparwyr Addysg Gymraeg i Oedolion sydd yn cael eu cyllido i gynnal gweithgareddau allgyrsiol. Rydym hefyd yn cynnwys y Dysgwyr o fewn ein gweithgareddau cyffredinol ar gyfer teuluoedd ac ati.

O Fis Ebrill 2009 bu'r Fenter yn cynnig gwasanaeth rheoli a chynllunio strategol i Fenter Maelor trwy gytundeb lefel gwasanaeth. Golyga hyn fod y rheolwr yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos i Fenter Maelor a thri diwrnod yr wythnos i Fenter Iaith Sir y Fflint. Mae'r Swyddogion Busnes rhyngddynt yn gweithio diwrnod ychwanegol i Fenter Maelor yn darparu gwasanaeth gweinyddol a chyllidol. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r rheolwr a'r staff wedi llwyddo i gynnal lefel y gweithgareddau yn Sir y Fflint a darparu ar gyfer anghenion penodol Menter Maelor ac rydym yn gwerthfawrogi eu parodrwydd i arbrofi a gweithredu mewn ffyrdd newydd. Sicrhawyd incwm i Fenter Iaith Sir y Fflint trwy'r cytundeb a chafwyd cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gydweithredu a rhannu adnoddau ac arbenigedd staff ar draws ffiniau sirol. Oherwydd yr hinsawdd economaidd y tebygrwydd yw y byddwn yn rhannu gwasanaeth rheolwr rhwng Mentrau Iaith Maelor, Dinbych a Fflint ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010 -11.

Eilbeth yw'r newidiadau hyn i brif amcan y Fenter o hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg o fewn y Sir. O fewn yr adroddiad hyderwn y gwelwch ein hymrwymiad i'r gwaith hwnnw a bod llu o weithgareddau yn digwydd o fewn y Sir. Ein nod yw adeiladu ar hynny gan gryfhau ein cysylltiadau lleol ar draws y Sir ac adeiladu ar yr ewyllys da a'r awydd sydd dros y Gymraeg.

Ni fu'r Sir Fflint 'newydd ' mor flaengar â'r 'hen' Sir y Fflint wrth ddatblygu addysg Gymraeg o fewn y Sir. Mae mawr angen ehangu ar y ddarpariaeth Gymraeg o fewn y Sir, gan wneud y dewis o anfon plentyn i gael addysg Gymraeg yn ddewis llawer mwy hwylus i rieni. Gallem oll ddechrau pwyso am wella yn y maes hollbwysig hwn ac i ddechrau magu momentwm at hyn o fewn ein cymunedau. Nid gwaith hawdd fydd hyn fodd bynnag gyda gwasgfa economaidd o'n blaenau. Yr ydym fel Menter yn gallu darparu cyfleon, ond rhaid i ni oll ail gynnau brwdfrydedd ac egni i argyhoeddi fel y gallwn ddangos eto fod pethau cyffrous yn digwydd o fewn Sir y Fflint.

Carwn ddiolch i Gyfarwyddwyr a Staff y Fenter am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Ni fu'n hawdd bob amser. Cafwyd adegau o siomiant ymhlith y llwyddiannau. Mae newid strwythurol pellach eto o'n blaenau ond nad anghofiwn ein priod waith a'n dyletswydd dros hyrwyddo'r Gymraeg o fewn ein Sir.

Yn gywir

Harri Bryn Jones - Cadeirydd

Crynodeb Gweithredol

Mae **Menter Iaith Sir y Fflint** yn gwmni cyfyngedig dan warant a sefydlwyd yn 1998. Mae'r Fenter yn gweithredu ar lefel lleol i Sir y Fflint gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi eu penodi ar sail maes diddordeb neu ardaloedd daearyddol. Hyn oll er mwyn sicrhau bod y Fenter yn gynrychioladol o gymunedau'r sir. Ei phrif swyddogaeth yw datblygu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Sir y Fflint. Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw prif gyllidwyr y Fenter ac mae hi hefyd yn ogystal wedi llwyddo i ddenu nawdd yn flynyddol gan Gyngor Sir y Fflint at gostau staffio. Sicrhawyd nawdd ychwanegol o'r Rhaglen Datblygu Wledig a ariannir yn rhannol gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithredu Prosiect Iaith a Threftadaeth ar gyfer y cyfnod 2008-11. Lleolir swyddfa'r Fenter yn "Corlan" - adeilad Cyngor Gwirfoddol Sir y Fflint ar y Parc Busnes yn Yr Wyddgrug. Asesir gwaith y Fenter yn flynyddol gan Fwrdd yr Iaith yn unol â thargedau penodol a gytunwyd rhwng Bwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Sir y Fflint a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r targedau yn cyd-fynd a'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Fenter am y cyfnod 2008 -11 yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelodau, budd-ddeiliaid a phartneriaid yn 2007.

Cenhadaeth Menter Iaith Sir y Fflint

Gwaith y Fenter yw ehangu, hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Sir y Fflint.
Bydd y Fenter yn cyflawni hyn drwy:

Normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy ehangu'r meysydd a chyfleoedd i'w defnyddio o fewn Sir y Fflint a'r ardaloedd cyfagos.

Codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a sicrhau proffil gweledol a chlywedol iddi.

Codi hyder siaradwyr Cymraeg a chenhadu ymysg y Di-gymraeg i'w hannog i ddysgu'r iaith Gymraeg drwy drefnu a datblygu gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol, addysgol ac amser hamdden arall.

Amlygu cyflwr yr iaith Gymraeg yn y gymuned drwy ddatblygu prosiectau a fydd yn sicrhau ei ffyniant a dylanwadu ar y ffactorau cymdeithasol ac economaidd er mwyn sicrhau statws a gwerth economaidd i'r Gymraeg.

Mae'r ddogfen yma yn adroddiad ar waith y Fenter ac yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Mehefin 2008 a Gorffennaf 2009.

Pennod 1: Mudiadau a Phartneriaethau

Mae'r Fenter yn parhau i feithrin perthynas a datblygu cysylltiadau gyda nifer o bartneriaid yn y sector gyhoeddus a'r sector wirfoddol er mwyn sicrhau mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Fforwm Sirol o bartneriaid iaith y Sir yn cyfarfod yn chwarterol, gyda'r Fenter yn parhau i gydlynu a chadeirio'r cyfarfodydd. Mae'r partneriaid wedi llwyddo i gydweithio yn effeithiol i drefnu ymgyrchoedd, rhannu ymarfer da a cheisio dylanwadu ar lefel strategol er mwyn newid arferion a chynyddu defnydd o'r Gymraeg gan y sector wirfoddol ar sector gyhoeddus. Mae aelodaeth y Fforwm wedi cynyddu mewn niferodd yn ystod y cyfnod, gyda'r mudiadau canlynol yn aelodau: - Menter Iaith Sir y Fflint, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, TWF, Cyngor Sir y Fflint, Menter a Busnes, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Popeth Cymraeg, Prifysgol Cymru Bangor, Coleg Glannau Dyfrdwy ,Canolfan Cymraeg i Oedolion, Cadwyn Clwyd, Estyn Llaw, Rhieni Dros Addysg Gymraeg a Choleg Garddwriaeth Cymru.

Sicrhaodd y Fforwm dan arweiniad Menter Iaith Sir y Fflint nawdd o £130,000 ar gyfer gweithredu Prosiect Iaith a Threftadaeth, a ariannir yn rhannol gan bartneriaid y Fforwm Sirol yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r nawdd wedi galluogi'r Fenter i gyflogi Swyddog Prosiect Iaith a Threftadaeth sydd wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant cyfoethog y sir. Elfen bwysig arall o'r prosiect oedd cynnal astudiaeth ar gyfer asesu'r angen am Ganolfan Iaith, a fydd yn gyrchfan penodol ar gyfer cynnig gwasanaethau a chefnogaeth ddwyieithog i fudiadau, busnesau, plant a phobl ifanc ac oedolion yn ardaloedd gwledig y Sir. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda phartneriaid, budd- ddeiliaid a chynrychiolwyr o'r gymuned, mae'r agweddau cyntaf o'r astudiaeth wedi eu cwblhau. Mae safle tebygol a fyddai'n addas i'w ddatblygu wedi ei chanfod a Chynllun Busnes wedi ei gwblhau sydd yn cadarnhau hyfywdra ariannol y Ganolfan. Bwriedir sefydlu Pwyllgor Gwaith, gyda chynrychiolaeth o fudiadau cymunedol a prif bartneriaid er mwyn symud ymlaen i'r agwedd nesaf o gynllunio a datblygu adeilad pwrpasol.

Cyd-drefnodd y Fenter gyda phartneriaid y Fforwm Sirol "Wythnos Iaith ar Daith" am y drydedd flwyddyn yn olynol ym Mis Mai 2009. Cafwyd rhaglen gyflawn o weithgareddau a digwyddiadau ar draws y sir er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob sector. Trefnwyd y gweithgareddau canlynol yn ystod yr ymgyrch:- **Taith Sali Mali a Sam Tan, Helfa Drysor gyda Rhieni a Phlant Ifanc, Sesiynau Hwyl Gyda'r Iaith gydag Ysgolion Ail Iaith , Sesiynau Salsa, Sesiynau Criced yn Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg , Sesiynau Blasu Cymraeg, Sesiynau Gosod Blodau, Stondin Iaith ar Daith, Dawnsio Gwerin gyda Dawnswyr Delyn, Noson gyda Chôr y Pentan, Noson Gwis gyda Ffermwyr Ifanc, Noson Lansio Clwb Gwawr, Dathlu Pen-blwydd Papur Fama yn 30 oed, Twmpath Calan Mai a'r Ŵyl Cadi Ha.**

Mae'r Fenter yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi grwpiau cymunedol sydd yn gweithredu yn wirfoddol er mwyn hyrwyddo iaith a diwylliant Sir y Fflint. Rydym wedi rhoi cefnogaeth i'r grwpiau canlynol yn ystod y cyfnod: **Pwyllgor Gŵyl Tegeingl, Pwyllgor Gŵyl y Cadi Ha, Pwyllgor Dafydd ap Llywelyn, Partneriaeth Wledig Sir y Fflint a Phwyllgor Gŵyl y Ffin.**

Rydym wedi llwyddo i ddatblygu **perthynas** newydd gyda chyrff a mudiadau amrywiol, megis **MIND** Sir y Fflint a **Chyngor Lleol Gwirfoddol Sir y Fflint** sydd am fynd ati i gynyddu'r defnydd o'r **iaith Gymraeg**. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith yma yn y dyfodol.

Cefnogodd y Fenter **Noson Gŵyl Ddewi** gyda **Dafydd Iwan** fel rhan o ddathliadau **Gŵyl Sir Fflint** gan gynorthwyo'r **Cyngor Sir** i hyrwyddo a marchnata'r noson. Daeth 120 o bobl i'r digwyddiad yng Ngwesty Springfields Treffynnon.

Rydym yn parhau i gefnogi mudiadau a sefydliadau lleol drwy gynnig gwasanaeth cyfeirio at **Linell Gyswllt** Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gwasanaethau **Cyfieithu.**

Pennod 2: Rhieni Ifanc

Mae'r Fenter am gynorthwyo i ddwyn perswâd ar rieni ifanc i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf er mwyn cynyddu'r canran o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y cartref. Mi fyddwn yn sicrhau cyfleoedd i deuluoedd ifanc i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol drwy gynnal gweithgareddau cyffroes a chyfoes er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir.

Buom yn cydweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ymgyrch "**Kids Soak it Up**" i **Farchnata Addysg Gymraeg** i rieni ifanc. Cawsom ymgyrch lwyddiannus yn ystod Mis Chwefror a Mis Mawrth, a chynhaliwyd nifer o weithgareddau ar y **Glannau** er mwyn hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i rieni newydd a darpar rieni. Llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni'r sir ynglŷn â'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg. Cydweithiodd y Fenter gydag un o'n prif bartneriaid, Mudiad Ysgolion Meithrin i gynnal y gweithgareddau canlynol:- **Diwrnod i'r Teulu** ym Mharc Wepre **Cei Connah**, gyda **Sioe Pypedau a Sesiwn Grefft**; Gweithdy **Grefftau Dydd Gŵyl Ddewi** gyda Chylch Ti a Fi, **Bagillt** a **Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith** yng Nghlinig **Maes Glas.** Yn ychwanegol yn ystod cyfnod yr ymgyrch cydweithiodd y Fenter gyda swyddogion **TWF** i drefnu **arddangosfa** yng Nghlinig **Fflint**. Cydweithiwyd gyda **Cychwyn Cadarn** - er mwyn dosbarthu pecynnau trwy'r bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn y sesiynau "galw mewn" wythnosol ym **Mwcle**. Cafwyd cyfle i godi ymwybyddiaeth am yr ymgyrch yn Eisteddfod y Dysgwyr y Gogledd Ddwyrain a chydweithiodd y Fenter gyda **Menter Maelor a Dinbych** i drefnu **Taith Trên Sali Mali a Sam Tân** yn **Llangollen** ar gyfer teuluoedd ifanc. Cefnogodd staff y Fenter sesiynau gyda **ffotograffydd proffesiynol** fel rhan o'r gweithgareddau a drefnwyd gan y Bwrdd ym **Mharc Siopau Brychdyn.** Daeth yn agos i 100 o blant i fynychu'r sesiwn yma, y nifer uchaf yn ôl bob tebyg yn ystod y daith genedlaethol.

Cefnogodd y Fenter nifer o weithgareddau yn ystod **Gŵyl Tegeingl** ym Mis Awst 2008 gan gynnwys **sesiynau storiâu** a gweithdai **chelf a cherddoriaeth werin** ar gyfer teuluoedd ifanc.

Trefnodd y Fenter **Gig** gyda'r Grŵp **Celt** yn ystod **Gŵyl Bwyd a Diod** Yr Wyddgrug ym Mis Medi a **Noson Merched Gwyllt Cymru** gyda'r awdur a'r cyflwynydd **Bethan Gwanas** ar gyfer mamau ifanc . Hyn mewn cydweithrediad a Chylch Meithrin Garden City ym Mis Tachwedd 2008.

Cynhaliwyd **Noson o Farddoni** ar gyfer teuluoedd gyda'r **Taeogion** yn yr Wyddgrug ar 21ain Tachwedd.

Cefnogodd y Fenter cynhyrchiad llwyddiannus gan **Theatr Bara Caws** yn ystod eu **Taith Sioeau Clybiau** "Dal i Bwmpio" dan y cynllun Noson Allan. Cytunodd y Fenter i gydlynu'r gwaith yn lleol ar ran Theatr Bara Caws , ac ymgymerodd y Fenter i drefnu, hyrwyddo a marchnata' r digwyddiad a gynhaliwyd yn y **Clwb Rygbi'r Wyddgrug** ar 10fed Mawrth 2009.

Pennod 3: Plant

Mae'r Fenter am gydweithio gyda sefydliadau addysg a gofal plant i sicrhau fod darpariaeth Gymraeg ar gael i holl blant y sir o fewn eu cymunedau lleol. Mi fydd y Fenter yn sicrhau cyfleodd iddynt gael defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd anffurfiol er mwyn normaleiddio defnydd o'r iaith yn gymdeithasol.

Cydweithiodd y Fenter gydag ysgolion Cynradd i ddatblygu **Prosiect Gemau Buarth** yn ystod Gorffennaf 2008. Cafodd y plant gyfle i ymchwilio i gemau buarth y gorffennol ac i ddatblygu syniadau am gemau buarth newydd .

Cynhaliwyd **Gweithdai Barddoni** gyda **Meirion Macintyre Huws** yn Ysgolion Gwenffrwd a Chroes Atti ar 18fed Medi 2008. Cyhoeddwyd y cerddi ym Mhapur Fama a'r Glannau ac yn "Camau", newyddlen y Fenter.

Cynhaliwyd nifer o **Weithdai Celf Pypedau** ar y thema "**Arwyr Cymru**" yn y 5 Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg yn ystod wythnos 20-25 Hydref. Diben y gweithdai oedd rhoi cyfle i'r plant gael archwilio syniadau am eu **hunaniaeth Gymraeg**, **hanes a'u hiaith.** Cafodd gwaith llaw'r disgyblion ei arddangos yn **Oriel Clwyd Theatr Cymru** yn ystod Mis Rhagfyr 2008 hyd at 5ed Ionawr 2009.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ysgolion **Terrig, Treuddyn a Mornant**, weithdy barddoni yng nghwmni Bardd Plant Cymru **Ifor ap Glyn** ym Mis Ionawr 2009. Noddwyd y gweithgarwch gan yr **Academi** a'r **Prosiect Iaith a Threftadaeth**.

Cynhaliwyd gweithdai **Bocswn** yn Ysgolion Croes Atti y Fflint a Gwenffrwd, Treffynnon yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2009. Cyllidir y sesiynau yma gan yr arian nawdd a dderbyniwyd gan **Gyngor Gwirfoddol Cymunedau Cymru** ar gyfer ardaloedd **Cymunedau Cyntaf**

Cwblhawyd prosiect **Murlun Cymunedol Oakenholt** gyda'r Artist **Cefyn Burgess** yn Ysgol Croes Atti y Fflint. Cafodd nifer o blant a rhieni'r ysgol y cyfle i gyfrannu i'r broses **creu, dylunio** a **chynhyrchu** a thrwy hyn gael cyfle i ymchwilio i **hanes a diwylliant** cymuned **Oakenholt** a thref y Fflint. Lansiwyd y Murlun yn swyddogol gan **David Hanson AS** ar 19eg Mehefin yn ystod Ffair Haf yr ysgol. Ymwelodd y bardd **Siân Northey** yr ysgol er mwyn cynorthwyo'r plant i gyfansoddi cerddi i gyd fynd â thema'r murlun. Cafodd y cerddi eu darlledu ar raglen Hywel Gwynfryn ar Radio Cymru.

Sefydlwyd **Theatr FfM** mewn partneriaeth gydag Urdd Gobaith Cymru ac ariennir y cynllun gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Cynhelir gweithdai drama a dawns wythnosol ar gyfer plant ysgolion cynradd Cymraeg y Glannau yn y Fflint.

Pennod 4: Dysgwyr – Hyder Ieithyddol

Un o brif amcanion y Fenter yw cynorthwyo i gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Cynhaliwyd **Eisteddfod y Dysgwyr** ym Mis Chwefror yn Theatr John Ambrose, Rhuthun mewn cydweithrediad â Mentrau Iaith Maelor a Dinbych. Cydlynodd y Fenter y gwaith trefnu ar ran y Grŵp Llywio ac mi fydd yn parhau i gefnogi'r darparwyr Addysg Gymraeg i Oedolion i hyrwyddo a marchnata'r Eisteddfod i Ddysgwyr y Sir.

Cynhaliwyd **Sesiynau Sgwrs** reolaidd yn nhafarn Y Castell Rhuthun a Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ac ym Mhafiliwn Y Fflint a Thafarn y Blue Bell Helygain.

Cefnogodd y Fenter amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys **Nosweithiau i ddathlu'r traddodiad Plygeiniol** yn Yr Wyddgrug a Helygain a **Pharti Nadolig .** Mae'r Fenter yn parhau i gefnogi gweithgareddau **C³**, Cymdeithas i gymathu Dysgwyr rhugl a Siaradwyr Cymraeg yn ardal Yr Wyddgrug.

Pennod 5: Pobl Ifanc

Mae'r Fenter wedi parhau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith yr ifanc ac yn edrych i greu cyfleodd i bobl ifanc gael defnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Cydweithiodd y Fenter gyda Menter Môn i drefnu **Diwrnod o Ddringo Creigiau** ar yr Ynys ar ddiwedd tymor ym Mis Gorffennaf 2008 ar gyfer disgyblion Fforwm Iaith **Ysgol Maes Garmon.**

Cydweithredodd y Fenter gyda'r **Urdd** a **Menter Iaith Maelor** unwaith eto eleni i gynnal cystadleuaeth dalent **Talent FfM** ar gyfer pobl ifanc ym Mis Tachwedd 2008. Daeth nifer o ieuenctid siroedd Wrecsam a'r Fflint i gystadlu o flaen cynulleidfa sylweddol yn Y Stiwt yn Rhosllannerchrugog.

Cafodd 95 o ddisgyblion **Ysgolion Maes Garmon, Alun, Richard Gwyn a Chastell Alun** gyfle i gyfrannu i brosiect **Sioe Ffasiynau** i ddathlu Ddiwrnod **Santes Dwynwen**, ym Mis Ionawr. Cydlynodd y Fenter y Sioe Ffasiynau rhwng y pedair ysgol â **Chlwyd Theatr Cymru**. Gofynnwyd i grwpiau o blant o'r pedair ysgol ymgymryd â'r dasg o greu eu gwisgoedd arbennig eu hunain ar gyfer Gŵyl y Cariadon a heriwyd y plant i greu gwisgoedd allan o ddefnydd diangen a deunyddiau ailgylchadwy. Cynhaliodd Clwyd Theatr Cymru weithdai gyda'r ysgolion er mwyn cynorthwyo'r plant gyda'r broses creu, dylunio a chynhyrchu'r gwisgoedd.
Arweinydd y noson oedd cyflwynydd Sgorio ar S4C, a sylwebydd pêl-droed Radio Cymru **Nic Parry**, ac yn eistedd ar y panel o feirniaid roedd Cynhyrchydd C2 Radio Cymru **Siân Alaw Jones**, Cyflwynydd Clwb Garddio S4C a darlithydd Coleg Garddwriaeth Cymru **Sioned Rowlands**, ac Arbenigwr Ffasiwn Wedi 3 ar S4C, **Huw Rees**. Cafodd y noson ei ffilmio ar gyfer **Rhaglen Wedi 3 ar S4C.**

Ein Prif Ddigwyddiad eleni oedd cynorthwyo Pwyllgor Gŵyl **Y Ffin** i gynnal gŵyl **gerddorol roc a pop Cymreig**, â cherddoriaeth o Gymru yn Yr Wyddgrug. Targedwyd yr ŵyl yn benodol ar gyfer pobl ifanc gan hyrwyddo **diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru** i fynychwyr yr ŵyl. Mynychodd dros 1,000 o bobl y digwyddiad ym Mis Gorffennaf er mwyn gweld trawstoriad o artistiaid Gymraeg a Chymreig yn perfformio. Yn ystod yr Ŵyl sefydlwyd **Pentref Ieuenctid** dan ofal yr **Urdd** gyda sesiynau rhyngweithiol megis Samba, beat bocsio rhwng y bobl ifanc a'r artistiaid yn ogystal ag Eco Tipi ble cynhaliwyd gweithdai barddonol ac acwstig.

Pennod 6: Sector Breifat

Cydnabyddai'r Fenter fod gan gwmnïau a busnesau rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ymdreiddio i'n bywydau bob dydd. Mae'r Fenter wedi parhau i gydweithio gydag Uned Sector Breifat, Bwrdd yr Iaith Gymraeg i geisio cyfleodd newydd i weithio gyda chwmnïau lleol a'u perswadio i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Fenter wedi mynychu gweithdai **Cychwyn Busnes Newydd** Grŵp THE er mwyn hyrwyddo manteision marchnata yn ddwyieithog. Hyrwyddodd y Fenter deunydd **Iaith Gwaith** ynghyd a chynllun **Grant Naws am Le** Croeso Cymru.

Cynorthwyodd y Fenter Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei gwaith ymchwil yn datblygu **Cynlluniau Iaith** ar gyfer nifer o fusnesau yn y sir. Byddwn yn parhau i roi arweiniad mewn cydweithrediad a'r Bwrdd i fusnesau lleol sydd yn edrych i weithredu'n ddwyieithog.

Pennod 7: Marchnata a Chyhoeddusrwydd Digwyddiadau

Rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu proffil y Fenter yn ystod cyfnod yr adroddiad er mwyn creu **delwedd gyfoes a deniadol** o weithgareddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y sir. Rydym wedi llwyddo i feithrin perthynas agos gyda'r **wasg** leol, ranbarthol a chenedlaethol a'r **cyfryngau** er mwyn creu agwedd bositif at yr iaith Gymraeg, hyn oll mewn partneriaeth gydag aelodau'r Fforwm Iaith Sirol a phartneriaid eraill. Sicrhawyd cyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod gydag eitemau am ein digwyddiadau yn cael eu darlledu a'r rhaglenni megis **Wedi 3, Wedi 7, Wales Today** a'r **Newyddion**, **Rhaglen Jonsi**, **Rhaglen Nia, Rhaglen Hywel Gwynfryn** ac **C2** ar **Radio Cymru a Radio Wales** ac erthyglau rheolaidd yn ymddangos ym **Mhapur Fama**, **Y Glannau** , **Y Cymro**, **Daily Post**, **Golwg**, **Flintshire Evening Leader** a'r **Chester Chronicle**.

Rydym wedi parhau i **hwyluso** a **chefnogi** digwyddiadau yn flynyddol sydd yn hyrwyddo **diwylliant cyfoes a thraddodiadol lenyddol, gerddorol a dawns werin** y sir drwy gefnogi **Gŵyl Gelf Sir y Fflint**, **Gŵyl Tegeingl , Gŵyl Y Ffin, Gŵyl Fama** a'r **Ŵyl Cadi Ha.**

Rydym yn parhau i gynhyrchu ein **Newyddlen** electroneg , "**Camau**" er mwyn cadw mewn cysylltiad gyda'n haelodau a'n cefnogwyr a'i hysbysu am weithgareddau, digwyddiadau a

gweithdrefnau mewnol y Fenter. Mae 92 o drigolion lleol wedi ymaelodi gyda'r Fenter er mwyn ein cynorthwyo i weithredu ein hamcanion.

Pennod 8: Y Strwythur Rheoli, Staffio ac Aelodaeth

Dyma'r rhestr o **Gyfarwyddwyr** a **Swyddogion** Menter Iaith Sir y Fflint yn ystod cyfnod yr Adroddiad:

Cyfarwyddwyr	Pedr Wyn Jones Huw Alun Roberts Dylan W Jones – ymddiswyddo 17/04/09 Nia Wyn Jones Harri Bryn Jones Gwawr Cordiner Lisa Ohran – penodi 08/12/08 Gwenno Jones – penodi 08/12/08
Cadeirydd	Harri Bryn Jones
Is- Gadeirydd	Huw Alun Roberts
Ysgrifennydd y Cwmni	Nia Wyn Jones
Trysorydd	Dylan Jones – ymddiswyddo 17/04/09 Lisa Ohran - apwyntiwyd 20/05/09
Rheolwr (rhan amser o Ebrill 09)	Gwawr Cordiner
Swyddog Busnes (rhan amser)	Rhian Davies
Swyddog Busnes (rhan amser)	Ellie Pritchard
Swyddog Plant ac Ieuenctid	Alaw Lewis - ymadael 07/09/09
Swyddog Plant ac Ieuenctid	Hannah Pritchard - penodi 03/09/09
Swyddog Dysgwyr (rhan amser)	Ellie Pritchard – dros dro hyd at 31/03/09
Swyddog Iaith a Threftadaeth	Gethin Richardson – ymadael 31/05/09
Swyddog Iaith a Threftadaeth	Ffion Clwyd Edwards – dros dro 01/06/09 – 31/07/09
Swyddog Iaith a Threftadaeth	Rebecca Davies – penodi 03/08/09

Rhestr Aelodau:

Ros Adams, Yr Hôb (Aelod Unigol)
Teresa Allen, Talacre (Cymunedau'n Gyntaf)
Marian Antrobus, Alltami (Mudiad Ysgolion Meithrin)
Jill Blandford, Gwernymynydd (Aelod Unigol)
Nick Blandford, Gwernymynydd (Aelod Unigol)
Helen Brockley, Bagillt (Aelod Unigol)
Eirian Conlon, Yr Wyddgrug (Prifysgol Bangor)
Paul Conlon, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Steve Crosby (Aelod Unigol)
Aled Lloyd Davies, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Beryl Davies, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Bryn Davies, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Meirwen Davies, Caerwys (Aelod Unigol)
Rhian Davies, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Stuart Davies, Rhuddlan (Aelod Unigol)
Sion Huw Davies, Caerwys (Aelod Unigol)
Kieran Duff, Yr Wyddgrug (FLVC)
Helen Dumbleton, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Geraint Brython Edwards, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Non Edwards, Cei Connah (Coleg Glannau Dyfrdwy)
Carys Gwyn Evans, Yr Wyddgrug (Mudiad Ysgolion Meithrin)
Luke Evans, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Pam Evans-Hughes, Wrecsam (Canolfan Cymraeg i Oedolion)
Catrin Gilkes, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Collin Gilligan, Brychdyn (Parc Siopa Brychdyn)
Dafydd Griffiths, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Meri Griffiths, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Dafydd Gruffydd, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Emyr Gwyn, Handbridge (Aelod Unigol)
Elin Gwynedd, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Sally Heaney, Bodfari (Aelod Unigol)
Eryl Hooson, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Elgan Davies Hughes, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Gwyn Hughes, Caerwys (Aelod Unigol)
Keith Redfern Humphreys, Cilcain (Aelod Unigol)
Siwan Hywel, Bangor (Canolfan Cymraeg i Oedolion)
Gary Hughes, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Rhiannon Jenkins, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Bethan Jones, Nercwys (Aelod Unigol)
Caren Prys Jones, Yr Wyddgrug (Cyngor Sir y Fflint)
Dafydd Wynn Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Donna Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Dylan Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Eirwen M. Jones, Nercwys (Aelod Unigol)
Frances Jones, Yr Wyddgrug (Popeth Cymraeg)
Gareth Wyn Jones, Wrecsam (Aelod Unigol)

Gwenno Jones, Rhes-Y-Cae (Aelod Unigol)
Gwion Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Harri Bryn Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Iwan Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Mark Jones, Y Fflint (Ysgol Croes Atti)
Ken Jones, Gwernymynydd (Aelod Unigol)
Neil Wyn Jones, West Kirby (Aelod Unigol)
Nia Wyn Jones, Bwcle (Aelod Unigol)
Osian Jones, Nercwys (Aelod Unigol)
Trefor Jones, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Brioni Kardzis, Brynffordd (Aelod Unigol)
Alaw Lewis, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Dilys Lewis, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Heledd Lewis, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Ian Lewis, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Dafydd Evan Morris, Cei Connah (Aelod Unigol)
Darren Morris, Pentref Cythral (Urdd Gobaith Cymru)
Faicka Nosir, Treffynnon (Aelod Unigol)
Lisa Orhan, Licswm (Aelod Unigol)
Arwel Owen, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Sara Owen, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
David Owen, Gwernymynydd (Aelod Unigol)
Adam Phillips, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Ann Phillips, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
David Porter, Bodfari, (Aelod Unigol)
Carl Renshaw, Bagillt (Aelod Unigol)
Eric Richardson, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Lesley Riordan, Treffynnon (Aelod Unigol)
Ceinwen Roberts, Northop Hall (Aelod Unigol)
Emrys Roberts, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Y Cynghorydd Gareth Roberts, Treffynnon (Aelod Unigol)
Huw Alun Roberts, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
John Rosser, Pen y ffordd, (Papur Fama)
Gillian Shakespeare, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Meinir Siencyn, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Tanwen Siencyn, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Kirsty Smallwood, Treffynnon (Aelod Unigol)
Martin Templeman, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Howard Thomas, Nannerch (Aelod Unigol)
Rhian Wyn Thomas, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Wan Toone, Treffynnon (Aelod Unigol)
Vicky Weale, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Bettina Weiss, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)
Mari Wiliam, (Estyn Llaw)
John Williams, Yr Wyddgrug (Clwyd Theatr Cymru)
Gareth Watson, Yr Wyddgrug (Aelod Unigol)

Pennod 9:Gweithredu, Monitro ac Adolygu

Cytunwyd i flaenoriaethu rhai o'r gweithgareddau o'r meysydd datblygu yng Nghynllun Corfforaethol a Rhaglen Weithredu Menter Iaith Sir y Fflint 2008-11 fel ein targedau blynyddol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mabwysiadwyd y Cynllun Corfforaethol yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelodau, ein partneriaid a'n cefnogwyr ym Mis Gorffennaf a Mis Awst 2007. Sicrhawyd grant o £70,978 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10 yn dilyn ein cais i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Medi 2008. Cytunwyd ar y **Targedau** canlynol gyda'r Bwrdd:-

Targedau
Cydweithio â Phartneriaid y Bwrdd sy'n cynnwys, Urdd Gobaith Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Eisteddfod Genedlaethol, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, Merched y Wawr, Papurau Bro, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Estyn Llaw, Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, Cerdd Gymunedol Cymru, Gwobr Dug Caeredin trwy gynnal cyfarfodydd, cydweithio ar brosiectau fel bo'r galw a pharhau i arwain y Fforwm Sirol gan gynnal o leiaf 4 cyfarfod y flwyddyn.
Cydweithio â'r Bwrdd i hyrwyddo a chefnogi prosiectau ac ymgyrchoedd (lle bo'n berthnasol) i gynnwys, Marchnata Addysg Gymraeg, Twf, Llinell Gyswllt â'r Gymraeg / Gwaith Cartref, Mae Gen ti Ddewis, Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc, Iaith Gwaith, Cefnogi'r Gymraeg, Cynlluniau Gweithredu Iaith, ac eraill fel bo'r galw.
Cynyddu cyfleoedd i deuluoedd gymdeithasu drwy gydweithio gyda phartneriaid perthnasol i gynnal 6 o weithgareddau penodol i deuluoedd
Pob aelod o staff perthnasol y Fenter i fynychu hyfforddiant 'manteision magu plant yn ddwyieithog' a gynhelir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg erbyn Medi 2009
Dosbarthu deunyddiau marchnata a chynnal sgwrs gyda 100 rhiant am fanteision y Gymraeg i deuluoedd
Cynnal stondin am werth dwyieithrwydd mewn o leiaf 6 o ddigwyddiadau cymdeithasol
Cynnal 6 o gyflwyniadau 'magu plant yn ddwyieithog' mewn gweithleoedd gan dargedu o leiaf 6 person ymhob cyflwyniad a wneir
Cynnal 6 o gyflwyniadau i fudiadau cymunedol
Cynorthwyo i sefydlu Cymdeithasau a fyddai yn apelio i rieni ifanc megis Clwb Gwawr, Sgwrs a Sangria ayb
Cynnal arolwg o ddarpariaeth Cymraeg ar gyfer yr oedran 14 – 25 mewn partneriaeth agos gyda'r Urdd a CFFI er mwyn adnabod cyfleoedd newydd i gynnal gweithgarwch
Cefnogi'r Urdd i sefydlu Aelwyd Cymraeg yn yr Hôb a Threffynnon i ddisgyblion ail iaith
Cynnal 6 o weithdai/weithgareddau amrywiol ar gyfer y grŵp targed 8-25 megis Talent FfM a Theatr FfM
Cynorthwyo grwpiau / fforymau ieuenctid lleol i gynnal 3 gig neu weithgaredd y tu allan i oriau ysgol - megis datblygu Gŵyl y Ffin
Cynnal Rownd leol o Frwydr y Bandiau
Cyflwyno manteision dwyieithrwydd i 60 o ddisgyblion a myfyrwyr wrth ystyried dewisiadau

gyrfaol. E.e. maes gwaith ieuenctid, y sector greadigol a'r sector awyr agored.
Cydweithio gyda 4 o ganolfannau ble y mae pobl ifanc a theuluoedd plant ifanc yn cymdeithasu i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y canolfannau hynny.
Datblygu ar y bartneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol drwy gydweithio a'r adrannau Polisi a Pherfformiad, Datblygu Economaidd, Addysg a'r adran Gynllunio i sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth i faterion yn ymwneud a'r iaith Gymraeg
Cydweithio a chefnogi adran Diwylliant a Chelfyddydau Cyngor Sir y Fflint i drefnu digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol Gymreig yn ystod Gŵyl Sir y Fflint
Sicrhau presenoldeb y Fenter ar bartneriaethau lleol megis Grŵp Blynyddoedd Cynnar-Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaeth Wledig Sir y Fflint
Sicrhau statws y Fenter fel corff ymgynghori a'r "llais lleol" ar faterion yn ymwneud a'r Gymraeg
Adeiladu ar waith y Fforwm Iaith drwy sefydlu "Gweithgor Gymraeg" fel is - bwyllgor i'r Strategaeth Gymunedol
Sefydlu Tecniwm Iaith a fydd yn gyrchfan i drigolion y sir gael mynediad i wasanaethau a chefnogaeth yn y Gymraeg
Cyd weithio yn agos gyda Gwasanaeth Gwybodaeth Plant ynglŷn â hyrwyddo'r ddarpariaeth gofal plant yn y Gymraeg.
Gweithredu ar ganlyniadau holiadur anghenion plant sy'n siarad Cymraeg yn y sir a chyfrannu i weledigaeth y Cyngor i gyflawni amcanion Strategaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint
Sefydlu 2 o bwyllgorau ardal. Gan sicrhau eu bod yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn ac yn datblygu rhaglen waith penodol
Sicrhau bod staff yn mynychu hyfforddiant perthnasol a drefnir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg
Cynorthwyo'r darparwyr Cymraeg i Oedolion i ddatblygu Eisteddfod Dysgwyr Gogledd Ddwyrain Cymru
Marchnata a Chyhoeddusrwydd - Mabwysiadu a gweithredu Cynllun Marchnata drwy: Meithrin perthynas well gyda'r wasg Seisnig a'r cyfryngau
Parhau i gynhyrchu newyddlen electroneg
Datblygu a chynnal gwefan a diweddaru'r wybodaeth yn gyson
Cynnal bas data o ddefnyddwyr ac aelodau

Sicrhawyd grant gan **Gyngor Sir y Fflint** ar gyfer prosiect **Swyddog Dysgwyr Cymunedol** hyd at 31 Mawrth 2009 yn ychwanegol ymrwymodd y Cyngor i gyfrannu at **gostau craidd** y Fenter o 1af Ebrill 2009 - 31 Mawrth 2012 drwy **Gytundeb Lefel Gwasanaeth**. Llwyddodd y Fenter yn ychwanegol i ddenu nawdd o'r **Rhaglen Ddatblygu Wledig** sydd wedi ei gyllido yn rhannol gan y Fforwm Sirol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y Prosiect Iaith a Threftadaeth. Sicrhawyd nawdd yn ogystal gan y **Sector breifat** a'r **Sector gyhoeddus** yn ystod y cyfnod.

Cyfarfu'r Bwrdd Cyfarwyddwyr 8 gwaith rhwng Mis Mehefin 2008 a Mis Gorffennaf 2009
Cyfarfu'r Is-bwyllgor Busnes 5 gwaith rhwng Mis Mehefin 2008 a Mis Gorffennaf 2009
Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredin Arbennig ym Mis Rhagfyr 2008 i fabwysiadu Memorandwm ac Erthyglau newydd i'r Fenter.

Pennod 10 : Crynodeb o'r Datganiad Ariannol ar 31 Mawrth 2009

	2009		2008	
	£	£	£	£
Incwm				
Grant Bwrdd yr Iaith	70,220		50,000	
Grant Cyngor y Celfyddydau	-		1,875	
Grant Cyngor Sir y Fflint –				
Prosiect Swyddog Dysgwyr Cymunedol	13,028		9,628	
Grant Rhaglen Ddatblygu Wledig -				
Prosiect Iaith a Threftadaeth	12,475		-	
Arian i Bawb	-		4,585	
Cymdeithas y Dysgwyr	-		1,731	
Nawdd	150		250	
Grantiau Eraill	1,225		-	
Incwm gweithgaredd / Prosiect	4,986		3,452	
		102,084		71,521
Treuliau ar gyfer grantiau Uniongyrchol				
	7,864		8,849	
		(7,864)		(8,849)
		94,220		62,672
Costau gweinyddol				
Cyflog y Rheolwr Gyfarwyddwr	30,900		7,164	
Yswiriant Cenedlaethol	3,259		750	
Cyflogau	46,365		62,967	
Yswiriant Cenedlaethol	3,524		5,250	
Pensiwn	1,159		828	
Ffôn	1,197		948	
Costau cyfrifiadurol	765		-	
Post a defnydd swyddfa	1,822		2,298	
Hysbysebu	541		3,248	
Marchnata	1,682		-	
Cyfieithu	-		276	
Teithio a chynhaliaeth	2,035		1,849	
Tanysgrifiadau ac aelodaeth	705		660	
Yswiriant	803		746	

Rent a Hurio	3,295		20	
Hyfforddiant	486		836	
Trwsio ac adnewyddu	293		-	
Ffioedd proffesiynol	386		884	
Cyfrifo	1,019		944	
Ymgyrchoedd	-		5,112	
Costau banc	26		34	
Costau eraill	791		1,018	
Lluniaeth	607		-	
Dibrisiant	895		977	
		(102,555)		(96,709)
Threuliau yn fwy nag incwm		(8,335)		(34,037)
Incwm gweithgar arall				
Rhoddion	543		250	
Cymhelliad ffeilio ar lein	-		250	
		543		500
Treuliau yn fwy nag incwm ac incwm gweithgar arall		(7,792)		(33,537)
Llog a dderbyniwyd				
Llogau banc a dderbyniwyd	763		1,731	
Llog banc a dalwyd	(6)			
		757		1,731
Incwm llai treuliau o weithgareddau cyffredin cyn trethiant		£(7,035)		£(31,806)

Crynodeb o'r Fantolen ar 31 Mawrth 2009

	Nodiadau	2009 £	2009 £	2008 £	2008 £
Asedau Parhaol					
Asedau cyffyrddadwy	8		1,975		2,194
Asedau cyfredol					
Dyledwyr	9	7,582		673	
Arian yn y banc ac mewn llaw		34,626		40,739	
		42,208		41,412	
Credydwyr					
Yn daladwy o fewn y flwyddyn	10	(11,491)		(3,703)	
Gwir asedau cyfredol			30,717		37,709
Asedau net			**£32,692**		**£39,903**
Chronfeydd wrth gefn			**£**		**£**
Cronfeydd	12		32,692		39,903

Gweler adroddiad cyflawn o'r cyfrifon yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr a Datganiad Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2009.